PPL4PC2

Dylunio a chynhyrchu seigiau cymhleth ac arloesol mewn cegin broffesiynol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu sgiliau crefft datblygedig i baratoi a chynhyrchu seigiau cymhleth, gan gynnwys dealltwriaeth o ddylunio, datblygu a chynhyrchu seigiau arloesol, a'r sgiliau i wneud hynny.

Argymhellir y safon hon ar gyfer uwch chefs / uwch gogyddion.

Mae'r safon hon yn canolbwyntio ar y wybodaeth a'r sgiliau technegol y mae eu hangen i ddylunio a chynhyrchu seigiau cymhleth ac arloesol mewn cegin broffesiynol; fodd bynnag, dylid ei hasesu yng nghyd-destun ehangach arferion gweithio diogel a hylan. Argymhellir cyfeirio at yr NOS canlynol, a ddewisir am eu bod yn briodol i'r rôl ac i'r sefydliad, ar y cyd â'r sgiliau a'r wybodaeth dechnegol ar gyfer y safon:

- Cynnal diogelwch bwyd mewn amgylchedd cegin
- Cymhwyso a monitro gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd mewn lletygarwch
- Rheoli diogelwch bwyd mewn cegin broffesiynol
- Lleihau risg alergenau i gwsmeriaid

Pan fyddwch chi wedi cwblhau'r safon hon, byddwch chi'n gallu dangos eich dealltwriaeth o'r canlynol, a'ch gallu i:

- Dylunio a chynhyrchu seigiau cymhleth ac arloesol mewn cegin broffesiynol

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Creu cynllun ar gyfer cynhyrchu seigiau cymhleth mewn cegin broffesiynol
2. Cyfrifo cymarebau cynhwysion, amserau coginio a thymereddau coginio ar gyfer chynhyrchu amrywiol feintiau o’r saig gymhleth
3. Cyfiawnhau sut mae cyfansoddiad gwahanol gynhwysion yn dylanwadu ar y dewis o brosesau, dulliau paratoi a dulliau coginio
4. Cynhyrchu amserlen ar gyfer paratoi, coginio a chyflwyno seigiau cymhleth a roddir, o fewn cyfnodau amser gosod
5. Gwerthuso’r cynllun i amlygu risgiau posibl
6. Esbonio sut i liniaru risgiau posibl a allai ddigwydd yn y cynllun
7. Dilyn eich cynllun eich hun wrth gynhyrchu seigiau cymhleth a roddir i chi mewn cegin broffesiynol
8. Rheoli amser yn briodol trwy gydol y prosesau paratoi, cynhyrchu a chyflwyno, yn unol â’ch cynllun eich hun
9. Gwerthuso seigiau gorffenedig
10. Ymchwilio i syniadau am seigiau a ryseitiau gan ddefnyddio ffynonellau amrywiol
11. Cynhyrchu cynlluniau ar gyfer seigiau a ryseitiau arloesol
12. Cyfrifo cymarebau cynhwysion, amserau coginio a thymereddau coginio ar gyfer cynhyrchu amrywiol feintiau o’r rysáit arloesol
13. Creu seigiau a ryseitiau arloesol yn unol â’ch cynlluniau eich hun
14. Dylunio systemau ar gyfer cofnodi a gwerthuso adborth ar seigiau a ryseitiau newydd
15. Dadansoddi adborth ar seigiau a ryseitiau ac awgrymu gwelliannau posibl

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Ffynonellau gwybodaeth y gellir eu defnyddio i lywio a dylanwadu ar ddatblygiad seigiau cymhleth ac arloesol
2. Proses esblygu saig o rysáit
3. Tueddiadau mewn technegau paratoi a choginio ac arloesi ryseitiau a seigiau
4. Sut i ystyried gofynion cwsmeriaid, a yw adnoddau ar gael a'u cost, blasau bwyd a chyfuniadau bwyd wrth ddatblygu seigiau cymhleth ac arloesol
5. Sut i gyflwyno seigiau neu gynnyrch newydd i'r fwydlen
6. Sut i bennu cynnwys maethol ryseitiau a seigiau
7. Sut i ddadansoddi data ansoddol a meintiol
8. Sut i werthuso llwyddiant seigiau neu gynnyrch a gyflwynir
9. Polisïau sefydliadol ar gyflwyno ryseitiau a seigiau arloesol

## Cwmpas/Ystod

**1. Cynhwysion**

1.1 cig coch
1.2 cig gwyn
1.3 dofednod
1.4 helgig
1.5 pysgod a physgod cregyn
1.6 ffrwythau a llysiau
1.7 cynnyrch llaeth
1.8 perlysiau a sbeisys

**2. Mae seigiau cymhleth yn dangos y gallu i gyfuno tri neu fwy o'r sgiliau a'r technegau canlynol ym mhob saig:**

- pobi
- blansio
- berwi
- tynnu'r esgyrn
- brwysio
- torri cig yn bili pala (butterflying)
- caramaleiddio
- caserolio
- confit
- hufennu
- dadadeiladu
- ffrio dwfn
- ychwanegu sudd at hylifau coginio (deglazing)
- tynnu'r wythïen
- rhostio'n sych
- dum pukht
- en vessie (mewn papur)
- engrastation (stwffio un anifail mewn anifail arall)
- ffiledu
- flambé
- rhewi'n gyflym iawn
- ewynnu
- ffrio

- gelio
- sgleinio
- grilio
- trwytho
- mwydo
- marinadu
- sychu'n bowdr
- coginio mewn sosban bwysedd
- purée
- lleihau
- rhostio
- robata
- sauté
- ffrio bas
- mudferwi
- cochi
- suro
- sous-vide
- creu pelenni (spherification)
- stemio
- stiwio
- stwffio
- panio siwgr
- chwysu
- tymheru
- thermal
- pecynnu dan wactod
- chwipio

**3. Mae seigiau a ryseitiau arloesol yn rhai sydd yn:**

3.1 newydd i'r busnes
3.2 newydd i'r chef
3.3 newydd i'r wlad
3.4 cynhwysion newydd
3.5 techneg newydd
3.6 arddull newydd

**4. Ffynonellau cynnyrch**
4.1 cyflenwyr ansawdd cymeradwy
4.2 cyflenwyr eraill
4.3 tarddiad
4.4 stampiau ansawdd
4.5 ystod y cynnyrch derbyniol
4.6 tymhorol
4.7 bwyd wedi'i chwilota

PPL4PC2

Dylunio a chynhyrchu seigiau cymhleth ac arloesol mewn cegin broffesiynol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | People 1st |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | People 1st |
| **RCU gwreiddiol** | PPL4PC2 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Uwch Chef/Gogydd |
| **Cyfres/Set** | Lletygarwch - Coginio Proffesiynol |
| **Geiriau Allweddol** | seigiau cymhleth |